# CLWB PLANT TRWY'R POST

Pecyn wythnosol 4
20/04/20

# Bywyd Newydd

Stori a gweithgareddau i'w gwneud gartref tra dydyn ni ddim yn gallu cyfarfod.



**Paratowyd y pecyn hwn gan:**
Andy & Rachel Hughes - Saint y Gymuned, Susan Williams - Cynllun EFE a Chapel Caersalem, Caernarfon, Nia Williams - Capel y Drindod Pwllheli, Jennifer Roberts - Eglwys Unedig Jerwsalem Bethesda gyda chymorth, syniadau ac adnoddau gan Cass Meurig, Becca Ambrose, Kathryn Williams, Rachel Hughes, Morgan Bryn, Leah Montgomery, Carys Hughes & Greg Leavers

An English version is also available

**Dalier sylw os gwelwch yn dda. Am resymau hawlfraint dylai'r pecyn hwn gael ei ddosbarthu'n gyflawn ac yn rhad ac am ddim. Nid yw unrhyw adran o'r pecyn i gael ei ddefnyddio ar wahân neu ei gopïo gan unrhyw gyhoeddiad arall heb yn gyntaf gael caniatâd.** Cysylltwch ag Ahughes@saintygymuned.org

# Stori



**Fersiwn Beibl.net**

Yr un diwrnod, roedd dau o ddilynwyr Iesu ar eu ffordd i bentref Emaus, sydd ryw saith milltir o Jerwsalem. Roedden nhw'n sgwrsio am bopeth oedd wedi digwydd. Wrth i'r drafodaeth fynd yn ei blaen dyma Iesu'n dod atyn nhw a dechrau cerdded gyda nhw. Ond doedden nhw ddim yn sylweddoli pwy oedd e, am fod Duw wedi'u rhwystro rhag ei nabod e.

Gofynnodd iddyn nhw, “Am beth dych chi'n dadlau gyda'ch gilydd?” Dyma nhw'n sefyll yn stond. (Roedd eu tristwch i'w weld ar eu hwynebau.) A dyma Cleopas, un ohonyn nhw, yn dweud, “Mae'n rhaid mai ti ydy'r unig berson yn Jerwsalem sydd ddim yn gwybod beth sydd wedi digwydd y dyddiau dwetha yma!” “Gwybod beth?” gofynnodd. “Beth sydd wedi digwydd i Iesu o Nasareth,” medden nhw. “Roedd yn broffwyd i Dduw ac yn siaradwr gwych, ac roedd pawb wedi'i weld yn gwneud gwyrthiau rhyfeddol. Ond dyma'r prif offeiriaid a'r arweinwyr crefyddol eraill yn ei arestio a'i drosglwyddo i'r Rhufeiniaid i gael ei ddedfrydu i farwolaeth, a'i groeshoelio. Roedden ni wedi gobeithio mai fe oedd y Meseia oedd yn mynd i ennill rhyddid i Israel. Digwyddodd hynny echdoe – Ond mae yna fwy … Yn gynnar y bore ma dyma rai o'r merched oedd gyda ni yn mynd at y bedd lle roedd ei gorff wedi cael ei osod, ond doedd y corff ddim yno! Roedden nhw'n dweud eu bod nhw wedi gweld angylion, a bod y rheiny wedi dweud wrthyn nhw fod Iesu'n fyw. Felly dyma rai o'r dynion oedd gyda ni yn mynd at y bedd i edrych, ac roedd popeth yn union fel roedd y gwragedd wedi dweud. Ond welon nhw ddim Iesu o gwbl.”

“Dych chi mor ddwl!” meddai Iesu wrth y ddau roedd e'n cerdded gyda nhw, “Pam dych chi'n ei chael hi mor anodd i gredu'r cwbl ddwedodd y proffwydi? Maen nhw'n dweud fod rhaid i'r Meseia ddioddef fel hyn cyn iddo gael ei anrhydeddu!” A dyma Iesu'n mynd dros bopeth ac yn esbonio iddyn nhw beth roedd Moses a'r proffwydi eraill wedi'i ddweud amdano yn yr ysgrifau sanctaidd.

Pan oedden nhw bron â chyrraedd pen y daith, dyma Iesu'n dweud ei fod e'n mynd yn ei flaen. Ond dyma nhw'n erfyn yn daer arno: “Tyrd i aros gyda ni dros nos; mae'n mynd yn hwyr.” Felly aeth i aros gyda nhw.

Pan oedden nhw'n eistedd wrth y bwrdd i fwyta, cymerodd dorth o fara, ac adrodd gweddi o ddiolch cyn ei thorri a'i rhannu iddyn nhw. Yn sydyn dyma nhw'n sylweddoli mai Iesu oedd gyda nhw, a'r foment honno diflannodd o'u golwg. Dyma nhw'n dweud wrth ei gilydd, “Roedden ni'n teimlo rhyw wefr, fel petai'n calonnau ni ar dân, wrth iddo siarad â ni ar y ffordd ac esbonio beth mae'r ysgrifau sanctaidd yn ei ddweud!”


Ymhen dim o amser roedden nhw ar eu ffordd yn ôl i Jerwsalem. Dyma nhw'n dod o hyd i'r unarddeg disgybl a phawb arall gyda nhw, a'r peth cyntaf gafodd ei ddweud wrthyn nhw oedd, “Mae'n wir! Mae'r Arglwydd wedi dod yn ôl yn fyw. Mae Simon Pedr wedi'i weld!”

*Luc 24:13-34 Beibl.net*

**Fersiwn syml**

Roedd dau o ffrindiau Iesu yn cerdded i bentref o'r enw Emaus. Daeth Iesu a dechrau cerdded gyda nhw, ond doedden nhw ddim yn gwybod mai fo oedd o. Roedden nhw'n drist oherwydd bod Iesu wedi marw. Ar ôl iddyn nhw gyrraedd, wnaeth y ffrindiau wahodd Iesu i gael swper gyda’n nhw. Dyma Iesu yn torri'r bara ac, yn sydyn, roedden nhw'n gwybod mai Iesu oedd o - ond diflannodd o'u golwg. Aethon nhw’n ôl i Jerwsalem a dweud wrth eu ffrindiau i gyd bod Iesu’n fyw!

# Lliwio




Dyma nhw'n dweud wrth ei gilydd, “Roedden ni'n teimlo rhyw wefr, fel petai'n calonnau ni ar dân, wrth iddo siarad â ni ar y ffordd ac esbonio beth mae'r ysgrifau sanctaidd yn ei ddweud!”

Luc 24 adnod 32

# Chwilair

**Pan mae rhywun yn dod yn Gristion mae wedi'i greu yn berson newydd: mae'r hen drefn wedi mynd! Edrychwch, mae bywyd newydd wedi cymryd ei le!**

*2 Corinthiaid 5 adnod 17 Beibl.net*


PAN
DOD
MAE
HEN
WEDI
CREU
MYND

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| C | Y | M | R | Y | D | E | U | TH | C |
| DD | O | W | FF | R | D | N | Y | M | R |
| O | Y | R | D | A | O | N | B | W | E |
| B | C | R | I | S | T | I | O | N | U |
| Y | W | CH | R | N | G | O | E | U | CH |
| W | G | E | O | T | TH | H | A | W | N |
| Y | P | DD | D | O | D | I | B | Y | F |
| D | C | RH | U | I | W | P | A | RH | E |
| E | M | A | E | Y | H | F | A | I | R |
| NG | H | M | O | DD | Y | W | E | N | D |

DREFN
BYWYD
NEWYDD
RHYWUN
PERSON
CYMRYD
CRISTION
CORINTHIAID

# Posau

Beth yw'r gair sydd wedi'i guddio yma?




# Posau


## CROESAIR


**I lawr**
1 Rhai sy'n mynd efo rhywun
2 Bwyd plaen
3 Mynd ar droed
5 Sut wnaeth Iesu farw?
6 Y person pwysicaf erioed

**Ar draws**
2 Lle i roi corff
4 Dinas yn Israel
5 Beth wyt ti'n wneud ar ôl teithio?
7 Y gwrthwyneb i ddynion




Tynnwch linell i gysylltu pob un o'r geiriau hyn â'r llun cywir.





**Cerddded**

**Ffordd**


**Emaus**


**Trafod**


**Croes**


**Bedd wag**


**Bara**











# Sialens



**Plannu hadau berwr**   Mae hyn yn hawdd iawn!

Defnyddiwch bot neu soser a rhowch ddarn o bapur cegin llaith yn y gwaelod.



Ysgeintiwch yr hadau berwr ar y papur.

Arhoswch ychydig ddyddiau ac fe fyddant wedi tyfu!



Os nad oes gennych hadau berwr, fe allech chi blannu hadau afal mewn pot bach o bridd ond mae'n debygi y bydd yn rhaid i chi aros ychydig yn hirach cyn iddyn nhw dyfu ac amser hir iawn nes i chi gael afalau!

---


## Sialens ysgrifennu llythyr



Ysgrifenna lythyr i aelod o dy deulu neu rywun sy'n byw ar ei ben ei hun er mwyn codi'i calon.  Dyweda am rai o'r pethau rwyt wyt ti wedi bod yn eu gwneud

Neu gwna gerdyn neu lun iddyn nhw i ddangos dy fod yn meddwl amdanyn nhw.

---



## Ffilm

Gwnewch fideo ohonoch fel teulu yn canu'r gân sydd ar ddiwedd y pecyn hwn.
Fe allech chi greu symudiadau i gyd-fynd â geiriau'r gân.
Gan ddefnyddio ffôn smart, ffilmiwch eich hun - efallai y gallai eich rhieni ei roi ar Facebook?



---

Beth am ddefnyddio Lego i wneud model o'r stori'r wythnos hon?



# Cwestiynau i'w Trafod

Ar ôl darllen y storiau, fe allech chi drafod y cwestiynau hyn:

1. Am beth oedd y ddau ffrind yn siarad ar eu ffordd adre o Jerwsalem?
2. Pam wyt ti'n meddwl nad oedd y ddau ffrind wedi adnabod Iesu?
3. Sut oedd y ddau ffrind wedi adnabod Iesu?
4. Sut ydyn ni'n gallu adnabod Iesu?


# Crefft

## Pili Pala




**Byddwch angen:**
2 daflen o bapur A4, glanhawr pibell, pinnau ffelt, pensil, pren mesur, siswrn, glud, powlen grawnfwyd, glain (dewisol)






**1**. Mesurwch sgwâr – 15cm x 15cm. Torrwch e allan.




**2**. Ar y daflen arall trowch y bowlen wyneb i waered a'i gosod ar y papur. Gwnewch amlinelliad o'r bowlen ac yna torri allan y siâp.



**3**. Rhowch rywfaint o lud ar un gornel i'ch sgwâr ac yna'i ludo'n sownd i'r cylch.




**4**. Lliwiwch.



**5**. Cychwynnnwch blygu'r papur fel acordion(yn union fel petaech chi'n gwneud gwyntyll.) Plygwch y papur i gyd fel acordion.



**6**. Gwasgwch y papur i gyd at ei gilydd ac yna plygwch e yn y canol.



**7**. Plygwch y glanhawr pibell yn ei hanner.



**8**. Lapiwch y glanhawr pibell o gwmpas canol y pili pala ddwywaith a rhoi tro ynddo.



**9**. Yn ofalus, agorwch adenydd eich pili pala a rhowch dro yn ei deimlyddion.

*Beth am i chi wneud rhagor o bili pala? Gallwch ddefnyddio unrhyw fath o bapur - lliwgar, patrymog, neu bapur o gylchgrawn a.y.y.b. Fe allech chi ychwanegu glain i'r teimlyddion.*



*Fe allech chi glymu edau denau a chlir i waelod y glanhawr pibell a hongian y pili pala yn eich cartref.*



# Crefft

## Esgid Cerdded Gyda Iesu




**Byddwch angen:**

1 daflen A4 o bapur,


cardfwrdd (hen focs esgidiau),

glanhawr pibell, glain,

pinnau ffelt, pensil, siswrn, glud, tyllwr, tâp selo







**1.** Rhowch y papur A4 ar y llawr a chyda'r bensil gwnewch amlinelliad o'ch troed .








**2.** Gwnewch lun o ewinedd eich traed ar y templed ac ysgrifennwch y geiriau "Cerdded Gyda Iesu."

Torrwch allan y siâp troed.



**3.** Gludwch y templed o'r droed ar ddarn o gerdyn.




**4.** Torrwch y cardfwrdd o gwmpas y templed gan adael ychydig o cm i fod fel gwaelod yr esgid .



**5.** Defnyddiwch y tyllwr i wneud twll, un bob ochr ar ymyl yr esgid.



**6.** Defnyddiwch bensil i wneud twll rhwng yr ail a'r trydydd o'r bodiau traed.



**7.** Plygwch y glanhawr pibell yn ei hanner.



**8.** Rhowch y 2 ddarn o lanhawr pibell drwy'r twll rhwng yr ail a'r trydydd o'r bodiau traed. Ar yr ochr arall plygwch damaid bach o'r glanhawyr pibell a rhoi tâp selo i'w dal yn eu lle.



**9.** Rhowch rywfaint o'r glain ar y ddau ddarn o lanhawr pibell.



**10.** Gwthiwch y glanhawr pibell drwy'r twll,un pob ochr i'r esgid fel nad ydy'r glain yn syrthio'i ffwrdd.



**11.** Ar yr ochr arall plygwch y ddau lanhawr pibell a rhoi tâp selo i'w cadw'n eu lle.



# Rysáit



I'w goginio o dan yr olygaeth oedolyn




## Rocky Road

**Byddwch angen**

- 200g o siocled tywyll (Siocled sy'n cynnwys 70% o solidau yw'r gorau)
- 2 – 3 llwy fwrdd o Golden Syrup
- 100g o Marshmallows bychan neu rai mawr wedi'u torri fân
- 200g o fisgedi Digestive
- Siwgwr eisin

**Cynhwysion dewisol**

- Cwrens,llygaeron neu unrhyw ffrwythau sych eraill
- Cnau
- Unrhyw gynhwysyn fyddai'n ychwanegiad blasus yn eich tyb chi. (Cofiwch os gwnewch chi hyn bydd angen i chi ddefnyddio llai o fisgedi a marshmallows  fel bod yna ddigon o'r siocled i orchuddio'r cynhwysion sych.)

**Dull**

1. Rhowch bapur pobi mewn tun pobi sgwâr bychan neu o faint canolig.

2. Rhowch y bisgedi mewn bag rhewgell a chyda phin rholio neu ochr eich dwrn bydd angen i chi daro'r bisgedi nes eu bod yn amrywiaeth o ddarnau mân – maint 5c a hyd yn oed fel llwch. Rhowch y bag i un ochr.

3. Mewn bowlen dros sosban fawr hanner llawn o ddwr poeth, toddwch y menyn, y siocled a'r syrup dros wres isel gan droi'r cyfan drwy'r amser nes bod pob darn o siocled wedi toddi. Yna tynnwch y sosban oddi ar y gwres.

4. Ychwanegwch y bisgedi, y marshmallows a'r cynhwysion ychwanegol dewisol i mewn i'r gymysgedd siocled.

5. Rhowch pob tamaid o'r gymysgedd yn y tun pobi a thaenwch y gymysgedd yn wastad gan sicrhau ei fod yn cael ei roi yn y corneli hefyd.

6. Rhowch y tun pobi yn yr oergell am o leiaf dwy awr ac yna ysgeintiwch siwgwr eisin dros y cyfan a thorrwch yn sgwariau neu'n betryalau.


















# Gweddi Greadigol

## Gweddio am Bobl Mewn Swyddi Allweddol

Byddwch angen set o frics Jenga( neu rywbeth tebyg.)

Trafodwch pa swyddi sy'n allweddol yn enwedig ar hyn o bryd.
e.e.
Meddyg, Parafeddyg, Nyrs, Gweithiwr Iechyd,
Dyn Tân, Plismon, Ffermwr, Gweithiwr mewn siop fwyd




Allwch chi feddwl am ragor o weithwyr allweddol?
Mae yna lawer mwy.

Nawr ysgrifennwch yr enwau hyn ar frics Jenga.
Rhowch un swydd ar bapur a'i sticio â thâp selo ar fricsen.

Ewch ati i chwarae'r gêm ond pob tro'r ydach chi'n tynnu bricsen, gweddiwch am y bobl sy'n gwneud y gwaith wedi'i ysgrifennu arni.

Gallwch ddefnyddio'ch geiriau eich hun neu gallwch weddio fel hyn:
"Dduw Dad, os gweli di'n dda helpa bawb sy'n gweithio fel……… a chadwa nhw'n ddiogel."

Gall pob chwaraewr ddweud Amen ar ddiwedd pob gweddi.


---



## Olion Traed

1 . Cymer bapur a thynna lun o dy droed gyda phin ffelt neu bensil.


2. Ysgrifenna weddi ar y papur. Meddylia am dri pheth i'w ddweud wrth Dduw. Rhywbeth i ddiolch iddo amdano, rhywbeth i ddweud sori amdano a rhywbeth rwyt ti eisiau'i ofyn iddo amdano.






3. Torra allan y siâp troed.

*Ar ôl gweddïo, rwyt ti'n barod i chwarae'r gêm ar y dudalen nesaf - 'Mae'r llawr yn lafa!'*



# Gemau



## Mae'r Llawr yn Lafa!



Mae'r stori'r wythnos hon yn sôn am ddau ddisgybl yn cerdded gyda Iesu.

Gofynnwch i bawb yn y teulu wneud amlinelliad o'u traed ar gerdyn neu bapur ac yna'u torri allan. Gwnewch rai ychwanegol hefyd.

Mae pawb wedyn i gychwyn o un pen i'r ystafell. Bydd angen i chi gyd ddychmygu fod y llawr wedi'i orchuddio â lafa. I gyrraedd pen arall yr ystafell bydd raid i chi gamu o un ôl troed i'r llall fel nad ydych yn llosgi'ch traed. Os oes rhywun yn syrthio'i mewn i'r lafa bydd yn rhaid i chi fynd yn ôl i'r cychwyn.

I wneud y gêm yn fwy o sialens fe allech chi ychwanegu rhwystrau neu ddefnyddio llai o olion traed.

## Beth ydy o?

Dyma 6 llun o eitemau cartref sydd wedi'u cymryd o onglau anarferol.
Allwch chi eu hadnabod? *(atebion ym mhecyn yr wythnos nesaf)*

1




2



3



4



5



6





# Gemau



## Gêm dysgu adnod

"Pan mae rhywun yn dod yn Gristion  mae wedi'i greu yn berson newydd: mae'r hen drefn wedi mynd! Edrychwch, mae bywyd newydd wedi cymryd ei le!"  *2 Corinthiaid pennod 5 adnod 17*

Amser symud! Er mwyn dysgu'r adnod mae eisiau gwneud dipyn o symudiadau ymarfer corff.

**Byddi angen:**

1. Yr adnod wedi ei sgwennu allan a'i thorri yn adrannau.
2. Lle i symud o gwmpas heb daro dim byd!

**Sut i chwarae:**

- Darllena'r darn cyntaf o'r adnod yn uchel.
- Gwna'r symudiad sy'n cyd-fynd â'r darn a dyweda'r darn o'r adnod yr un pryd.
- Symuda ymlaen i'r darn nesa, dweda'r darn yn uchel a gwna'r symudiad.
- Dal ati nes dy fod wedi mynd trwy'r adnod.
- Ceisia ddweud yr adnod i gyd heb edrych.

**"Pan mae rhywun ...**



Neidia gan symud dy freichiau i mewn ac allan i bwyntio atat dy hun

**yn dod yn Gristion ...**



Cyrlia'n belen ac yna ymestynna hynny fedri di

**mae wedi'i greu ...**



Tro dy freichiau o dy flaen, uwch dy ben a phlyga'n isel gan ddal i droi dy freichiau (cyfri'n araf i 20)

**yn berson newydd: ...**



Neidia 4 cam ymlaen, tro a neidia bedwar cam yn ôl i dy le (gwna hyn 5 gwaith)

**mae'r hen drefn wedi mynd! ...**

Naid cwningen (20 neu fwy!)



**Edrychwch, mae bywyd newydd ...**



Rhed yn dy unfan yn gyflym (cyfri i 50)

**wedi cymryd ei le!"**



Cyffyrdda fodiau dy draed 20 gwaith



# Gemau



## ‘Pictionary’

Pob chwaraewr i feddwl am rhywbeth i dynnu ei lun – os yn bosib gan ddefnyddio geiriau o’r stori.



**Byddi angen:**
1. Papur a phensil
2. 2 neu fwy o chwaraewyr
3. Amserydd – oriawr, ffôn, neu amserydd ŵy

**Sut i chwarae:**
- Mae un person ar y tro yn cael cyfle i dynnu llun rhywbeth tra mae’r chwaraewyr eraill yn ceisio dyfalu beth ydy o cyn i funud (neu ddau funud) fynd heibio.
- Mae’r person sy’n tynnu llun yn gorfod meddwl am rywbeth o hanes y Pasg neu stori’r pecyn hwn.
- Dydy’r person sy’n tynnu’r llun ddim yn cael siarad.
- Mae’r person sy’n dyfalu’n gywir yn cael pwynt, ac yn cael cyfle i dynnu llun.
- Os nad oes neb wedi dyfalu’n gywir o fewn yr amser, mae chwaraewr arall yn cael tro.
- Y person gyda’r mwyaf o bwyntiau sy’n ennill.

## ‘Dyfala pwy’

**Byddi angen:**
1. 2 set o luniau’r cymeriadau wedi’u torri allan (y 2 dudalen nesa)
2. 2 set o begiau – digon ar gyfer pob cymeriad
3. Glud neu dâp i roi’r cymeriadau’n sownd yn y pegiau
4. Rhywbeth i roi’r pegiau’n sownd ynddo fel ochr bocs cardfwrdd neu waelod bocs grawnfwyd i’r ddau chwaraewr.
5. 2 chwaraewr

**Sut i chwarae:**
- Mae’r ddau chwaraewr yn gosod eu pegiau gyda’r cymeriadau arnyn nhw fel ei fod yn gweld eu hwynebau.
- Mae’r ddau chwaraewr yn dewis un o’r cymeriadau ac yn tynnu’r peg oddi yno a’i gadw o olwg y chwaraewr arall.
- Mae chwaraewr 1 yn gofyn cwestiwn tebyg i hyn i chwaraewr 2: “Oes gan y person yma wallt du?” neu “Ydi’r person yma yn gwisgo het?”
- Os ydi chwaraewr 2 yn ateb “Ydi mae’n gwisgo het”, mae chwaraewr 1 yn tynnu peg pob cymeriad sydd heb het.
- Tro chwaraewr 2 ydi hi i ofyn cwestiwn wedyn.
- Mae’r ddau chwaraewr yn gofyn cwestiwn yn eu tro fel hyn, ac yn tynnu’r cymeriadau sydd ddim yn ffitio’r cwestiwn.
- Mae chwaraewr yn cael dyfalu pa gymeriad mae’r llall wedi ei ddewis pan mae’n dro iddo ofyn cwestiwn.
- Yr enillydd ydi’r chwaraewr sy’n dewis y cymeriad cywir gyntaf.






Iago



Jwdas Iscariot



Mathew



Bartholomeus



Philip



Ioan



Simon Pedr



Tomos



Simon y Selot



Iago fab Alffeus



Andreas



Thadeus




Iago



Jwdas Iscariot



Mathew



Bartholomeus



Philip



Ioan



Simon Pedr



Tomos



Simon y Selot




Iago fab Alffeus



Andreas



Thadeus




# Gŵr y Gwyrthiau

Ffilm sydd wedi'i hanimeiddio gyda Ioan Gruffydd yn lleisio llais Iesu. Mae S4C newydd gyhoeddi y bydd y ffilm ar Clic yn ystod yr wythnosau nesaf - cyfnod o 35 diwrnod felly ewch i Clic yr wythnos nesaf a bydd y ffilm yno i'w gwylio.

## Dolenni



Sgetsh bypedau https://youtu.be/WzIk2e9UrAI

Fideo o gân yr wythnos https://youtu.be/2KHkPjwVuk4

Syndod y Syndodau (Cymdeithas y Beibl) - Taflenni a'r fideo:
https://www.biblesociety.org.uk/get-involved/easter/welsh-easter-resources/?Cymraeg

Cartŵn 'Y Croeshoelio a'r Atgyfodiad' http://beibl.net/y-croeshoelio-ar-atgyfodiad

Cartŵn (Saesneg): Veggietales Easter Carol https://www.youtube.com/watch?v=2OHo6B4EpeI&t=35s

Gwybodaeth am app Arwyr Ancora - app gêm sydd ar gael am ddim https://arwyrancora.com/

Comic y Pasg https://issuu.com/ysgolsul/docs/comic_pasg_-_heb

Teyrnas y Teulu - syniadau/gemau https://youtu.be/Pxy_pE5nzVY (cliciwch 'Subscribe')

Adnoddau eraill https://www.prayerspacesinschools.com/prayer-spaces-at-home

## Canu

Os yw dyn yn Nghrist y mae'n greadigaeth newydd
Y mae'r hen yn heibio, y mae'r newydd wedi dod.
Os yw dyn yn Nghrist y mae'n greadigaeth newydd
Y mae'r hen yn heibio, y mae'r newydd wedi dod.

Dau Corinthiaid pump, undeg saith.
Dau Corinthiaid pump, undeg saith.

*Alaw hawlfraint 2002 Hywel Parry*

Gwyliwch y gân hon a chydganu drwy glicio ar
https://youtu.be/2KHkPjwVuk4

Os hoffech chi gerddoriaeth (hen noddiant) ar gyfer y gân hon, cysylltwch ag Andy Hughes - Ahughes@saintygymuned.org

